Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y Bwthyn Bach
# 2 Bwthyn Brynhyfryd
# Y Lawnt
# Sir Ddinbych
# LL16 5TL

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad preifat dwyieithog yw’r Bwthyn Bach a agorwyd ym mis Medi 2002.  Fe’i lleolir ar gyrion tref Dinbych yn Sir Ddinbych.

Mae’r lleoliad yn darparu gofal i blant o ychydig o fisoedd oed tan eu bod yn symud ymlaen i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg yn dair oed.  Mae’r lleoliad wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i 26 o blant.  Mae gofal rhan-amser i blant dwy oed fel rhan o fenter ‘Dechrau’n Deg’ a lleoedd addysg rhan-amser i blant tair oed.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn wedi ei nodi ag anghenion dysgu ychwanegol.  Nid oedd yr un plentyn o gefndir ethnig lleiafrifol ac mae bron pob un yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru ers 2002 ac mae’n aelod o Ddarparwyr Addysg Feithrin Cyfnod Sylfaen Cyngor Sir Ddinbych.  Mae hefyd wedi cofrestru’n aelod o’r ‘National Day Nurseries Association Cymru’ (NDNA Cymru).

Caiff y lleoliad ei staffio gan reolwraig/perchennog ers ei agor.  Bu newidiadau staffio yn yr ystafell gyn-ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf.  Dechreuodd  arweinydd newydd yn ystod Haf 2016 ac mae cymhorthydd yn ei swydd ers chwe mis.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mai 2015 a chan Estyn ym mis Mawrth 2011.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Anfoddhaol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- y plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn teimlo'n ddiogel yno
- y plant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad
- perthynas gadarnhaol a chefnogol yn bodoli rhwng yr holl ymarferwyr a'r plant
- ymarferwyr yn dilyn diddordebau'r plant
- yr arweinydd yn gweithio'n agos gyda gweddill y staff i greu ethos croesawgar
- llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda
- yr arweinydd a'r cymhorthydd yn cydweithio'n dda iawn
- bod partneriaeth dda yn bodoli gyda rhieni gofalwyr

Fodd bynnag, nid:

- yw cynllunio'r ymarferwyr bob amser yn ddigon trylwyr nac yn nodi'r medrau i'w datblygu ym mhob gweithgaredd
- yw'r ymarferwyr i gyd yn modelu'r iaith Gymraeg yn ddigon da
- yw'r gweithdrefnau asesu bob amser yn cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol i gael effaith gadarnhaol ar safonau plant
- yw'r adnoddau y tu mewn yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd nid:

- yw'r arweinwyr wedi llwyddo i wireddu gweledigaeth y lleoliad na'i hyrwyddo'n llwyddiannus
- yw'r arweinwyr wedi llwyddo i fodloni rhai o argymhellion yr arolygiad blaenorol
- oes gan ymarferwyr ddigon o wybodaeth am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen
- yw dealltwriaeth arweinwyr o'r broses gwella ansawdd yn ddigon da
- yw'r arweinwyr yn monitro'r addysgu a dysgu yn briodol
- yw cynllun datblygu y lleoliad yn nodi'n ddigon clir ei blaenoriaethau gwella

Fodd bynnag:

- mae'r arweinwyr wedi llwyddo i greu awyrgylch cartrefol lle mae'r plant yn hapus, a lle mae ymarferwyr yn cydweithio'n hwylus
- mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal y tu allan i sybmbylu'r plant

## Argymhellion

A1 Cynllunio cyfleoedd cyfoethog a chyson i blant ddatblygu medrau cynnar llythennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y chwe maes dysgu

A2 Gwella'r addysgu a'r asesu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol ac yn arwain at y camau priodol nesaf yn addysg y plant

A3 Sicrhau bod trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion

A4 Sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r lleoliad

A5 Cryfhau'r cynllun gwella drwy nodi camau gweithredu clir, meini prawf llwyddiant mesuradwy, amserlen weithredu briodol a chyfleoedd rheolaidd i fesur a gwerthuso cynnydd

A6 Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cynnwys dyrannu cyllid yn briodol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant â ffocws ar y lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad bob tymor.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gyflawniad a chynnydd plant ar draws y meysydd dysgu yn natblygiad eu medrau, na'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gyfranogiad y plant mewn dysgu a'i fwynhau. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r arweinydd yn darparu ystod briodol o weithgareddau er mwyn rhoi profiadau uniongyrchol i'r plant yn yr ardal fewnol a thu allan. Mae'r gweithgareddau yn yr ardal allanol yn galluogi mwyafrif y plant i wneud cynnydd boddhaol ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau'n canolbwyntio'n ddigon clir ar ddatblygu medrau cynnar llythrennedd, rhifedd, a TGCh y plant ar draws y chwe maes dysgu. O ganlyniad, nid yw medrau llawer o'r plant yn datblygu'n ddigon systematig.

Mae'r arweinydd yn ystyried diddordebau mwyafrif y plant yn dda trwy roi cyfleoedd priodol iddynt gynnig syniadau diddorol ar gyfer datblygu'r thema. Mae'n creu map meddwl syml gyda'r plant o'u gwybodaeth flaenorol ar ddechrau'r thema, ond nid yw'n datblygu digon ar hyn i ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach. Er hyn, mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan.

Nid yw ymarferwyr yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant glywed na defnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, lleiafrif o'r ymarferwyr sy'n gwneud unrhyw ddefnydd o'r Gymraeg wrth ganmol a rhannu cyfarwyddiadau syml. Er hyn, maent yn cynllunio cyfleoedd i blant ganu ychydig o ganeuon a rhigymau yn y Gymraeg ac maent yn llwyddo i gael y mwyafrif i ymateb yn lled frwdfrydig. Fodd bynnag, ni chynllunnir digon o gyfleoedd i blant wrando ar storïau nac i ymateb i'r rheini sy'n cael eu darllen iddynt yn y Gymraeg. O ganlyniad, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i glywed y Gymraeg i'w helpu i ddysgu'r iaith.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd amrywiol i ddangos parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol ac mae'r gweithgareddau a gyflwynir yn eu galluogi i ddysgu'n briodol am draddodiadau a dathliadau Cymreig trwy ddathlu gwyliau fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant er nad yw'n gwneud digon o ddefnydd o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau'r plant ymhellach. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyffrous yn yr ardal allanol i blant balu, plannu, a rhyfeddu ar weld blodau'n tyfu dros gyfnod. Mae'r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain yn yr ardaloedd y tu mewn. Er bod y tasgau ffocws yn sicrhau bod mwyafrif y disgyblion yn cael cyfleoedd i ymarfer eu medrau rhifedd a chorfforol, nid yw'r gweithgareddau yn rhoi'r cyfle iddynt ymestyn digon arnynt.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un yn deall ei rôl o fewn y lleoliad. Er hyn, ychydig iawn ohonynt sy'n meddu ar ddealltwriaeth briodol o egwyddorion a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Nid ydynt yn rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd na TGCh y plant o fewn y sesiynau dysgu. Er hyn, maent yn sicrhau bod cydbwysedd llwyddiannus yn bodoli rhwng y gweithgareddau sy'n cael eu cyfeirio gan oedolion a'r rhai sy'n cael eu dewis gan blant y tu mewn a thu allan.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd cyson o strategaethau holi pwrpasol er mwyn ennyn chwilfrydedd naturiol y plant yn effeithiol, er enghraifft drwy eu holi am yr hyn maen nhw'n ei sylwi wrth iddynt ddarganfod yn yr ardal allanol. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn llwyddiannus gan sicrhau bod bron pob un plentyn yn eistedd yn dawel am gyfnodau priodol i wrando ar stori.

Lleiafrif yr ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg gyda'r plant, tra bod y mwyafrif yn siarad Saesneg. O ganlyniad, lleiafrif o'r plant sy'n datblygu dealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg. Mae'r mwyafrif ohonynt wedi'u cyfyngu i eiriau unigol, fel enwi lliwiau a chyfrifo. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn sgwrsio yn Saesneg yn ystod y sesiynau chwarae.

Nid yw'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfle i'r plant drafod llyfrau. O ganlyniad, lleiafrif o'r plant sy'n dangos diddordeb mewn llyfrau, yn ymddwyn fel darllenwyr ac yn siarad yn briodol ag oedolion am yr hyn sy'n digwydd yn y lluniau. Mae enghraifft brin lle mae hyn yn digwydd yn cynnwys plant yn edrych ar luniau o drychfilod mewn llyfr ffeithiol yn yr ardal allanol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer asesu cynnydd y plant yn dechrau datblygu. Mae'r holl ymarferwyr yn canmol y plant ar lafar yn gyson. Maent yn arsylwi ar y plant yn ddyddiol ac yn cadw cofnodion digonol ar eu datblygiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio digon ar y wybodaeth hon i ymestyn y plant ymhellach a chynllunio'r cam nesaf ar eu cyfer.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r lleoliad yn llwyddo i greu ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol i'r plant ac mae'r ymarferwyr i gyd yn siarad â nhw gyda gofal a pharch. Mae pob un yn trin y plant yn sensitif a theg ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i hyn. Caiff pawb yr un cyfle i fanteisio ar adnoddau a gweithgareddau ac mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae teg yn briodol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol drwy gynnig grawnfwyd iachus a dŵr i’w yfed adeg byrbryd. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb wrth dywallt dŵr o jwg yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd glendid personol ac edrych ar ôl y corff yn iawn drwy annog y plant i olchi eu dwylo’n rheolaidd, ac i frwsio eu dannedd yn ystod y sesiwn bore. Fodd bynnag nid oes digon o gyfleoedd i ymestyn annibyniaeth y plant ymhellach drwy roi cyfrifoldebau fel ‘helpwr y dydd’ iddynt.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn datblygu’n briodol. Er enghraifft, darperir llecyn cyffyrddus a thawel i blant gael mynd i ymdawelu a myfyrio. Mae’r lleoliad yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn briodol trwy ymweld, er enghraifft, â siop elusen i brynu adnoddau ar gyfer thema. Mae’r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o wahanol ddiwylliannau, er enghraifft wrth ddathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae’r plant yn cael cyfleoedd cyson i gael sesiynau ymarfer corff y tu allan trwy weithgareddau sydd wedi eu cynllunio’n bwrpasol. Mae gweithgareddau corfforol yn cynnwys mynd ar feics, gyrru ceir bychain a thaflu pêl.

Nid yw trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

Nid oes plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er bod gan y lleoliad weithdrefnau priodol i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol pan fo angen, nid yw pob ymarferwr yn glir am y camau.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan y lleoliad amgylchedd ddysgu allanol briodol, sy’n adnodd defnyddiol a diddorol i alluogi’r plant i arbrofi a chwarae’n ddychmygus. Mae’n cynnig trawstoriad o brofiadau cyffrous i’r plant. Er enghraifft, mae cyfleoedd i’r plant balu pridd a choginio yn y gegin fwd. Mae’r siop arddio yn enghraifft dda lle caiff y plant gyfle i chwarae’n ddychmygus. Mae’r ardal hon hefyd yn adnodd gwerthfawr i blant ymchwilio a darganfod, a gwrando ar yr adar yn canu ac arsylwi arnynt yn chwilio am fwystfilod bach. Mae’n darparu cyfleoedd da iddynt ymarfer eu medrau corfforol, creadigol a datrys problemau yn ogystal. Mae’r ymarferwyr yn defnyddio’r lle sydd ganddynt yn yr ardal allanol hon yn effeithiol.

Fodd bynnag, prin yw’r adnoddau dysgu sydd ar gael yn yr ardal ddysgu y tu mewn ac nid yw’r ychydig sydd ar gael yn briodol i symbylu’r plant nac o ansawdd addas i ddatblygu eu medrau.

Mae ymarferwyr yn arddangos ychydig o waith y plant o fewn yr ystafell ddysgu ac mae plant yn ymfalchïo o weld eu gwaith ar y waliau.

Mae’r adeilad a’r safle yn lân a diogel.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae'r arweinydd yn gydwybodol ac mae'n sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda i greu ethos croesawgar ac mae bron pob plentyn yn ymateb yn gadarnhaol i hyn wrth gyrraedd y sesiynau. Mae'n sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gefnogi a gofalu am bob plentyn. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth sy'n seiliedig ar ddatblygu unigolion yn gorfforol, yn ddeallus, ac yn gymdeithasol mewn awyrgylch ddwyieithog. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr hyd yma wedi llwyddo i wireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Mae'r person cyfrifol yn sicrhau bod y polisïau statudol yn eu lle ac yn rheoli cyllid y lleoliad yn briodol; serch hynny, mae diffyg cyfeiriad strategol yr arweinwyr yn rhwystro datblygiad y lleoliad. Mae'r lleoliad wedi cyflwyno gweithdrefnau diweddar i werthuso staff. Fodd bynnag, nid oes ffocws digonol ar gynnydd, cyflawniad na safonau'r plant. Nid yw'r gwerthusiadau staff yn seiliedig ar arsylwi uniongyrchol, ac o ganlyniad, nid oes sylw addas ar fonitro'r addysgu na'r dysgu. Yn gyffredinol, nid yw'r arweinwyr yn rhannu argymhellion gan asiantaethau yn effeithiol ac mae rhai argymhellion yr arolygiad blaenorol yn parhau heb eu bodloni.

Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gweithredu Cynllun Dannedd Iach yn briodol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant yn ddigon cyson er mwyn gwella'r ddarpariaeth a sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn derbyn digon o sylw. Mae'r diffyg hyfforddiant yn cael ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth a'r ymrwymiad i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac mae hyn yn cael effaith andwyol ar safonau.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Annigonol yw gweithdrefnau'r arweinwyr ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth. Er eu bod wedi derbyn cefnogaeth gan yr awdurdod lleol, mae dealltwriaeth yr arweinwyr o'r hyn sydd ei angen i wella yn gyfyng iawn. Er eu bod wedi casglu barn rhieni drwy holiadur, nid ydynt wedi cynnwys eu sylwadau nac ystyried barn eraill wrth lunio'r ddogfen. Roedd yr agwedd hon o waith y lleoliad yn argymhelliad yn dilyn yr arolygiad blaenorol ac nid yw arweinwyr wedi llwyddo i fynd i'r afael ag ef, nac wrth wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu wedi adnabod rhai meysydd i'w datblygu ond nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar gyflawniad y plant. Mae'r adroddiad yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod ychydig o gryfderau a gwendidau perthnasol. Mae rhai blaenoriaethau yn cael eu targedu yn y cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun gwella yn nodi'r camau gweithredu na'r amserlen yn ddigon clir, nid yw'r meini prawf llwyddiant yn ddigon mesuradwy, ac nid oes cyfleoedd rheolaidd i fesur a gwerthuso cynnydd.

Mae ymarferwyr yn awyddus i ddysgu a datblygu'n broffesiynol ond cyfyng yw'r cyfleoedd a gânt i dderbyn hyfforddiant nac i arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio. Er hyn, maent yn gwneud ymdrech addas i ymateb yn gadarnhaol i gymorth a chyngor yr awdurdod lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad berthynas dda gyda rhieni a gofalwyr. Mae’r rhieni yn gwerthfawrogi’r cyswllt anffurfiol a dyddiol a gânt gyda’r ymarferwyr i drafod materion sy’n ymwneud â’u plant. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt drwy’r sgyrsiau dyddiol hyn, a thrwy arddangos gwybodaeth ar yr hysbysfwrdd, ac ar ffurf cylchlythyron. Mae’r rhieni yn gwerthfawrogi’r polisi drws agored sy’n bodoli iddynt drafod unrhyw bryderon gyda’r ymarferwyr a’r perchennog yn anffurfiol. Mae rhieni newydd yn derbyn pecyn gwybodaeth defnyddiol sy’n hwyluso’r cam o’r cartref i’r lleoliad. Mae rhieni yn derbyn llyfryn ar ddiwedd cyfnod eu plentyn yn y lleoliad sy’n dangos y cynnydd a’r cyflawniad mae eu plentyn wedi ei wneud. Cynhelir ychydig o weithgareddau elusennol mewn cydweithrediad â’r rhieni.

Mae’r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth ar gynnydd i’r ysgolion cynradd lleol yn briodol ac mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n addas gyda’r swyddog cyswllt er mwyn cefnogi’r plant a’u teuluoedd. Mae’r lleoliad yn defnyddio ychydig o gysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu’r plant, sy’n cynnwys benthyg llyfrau thema o’r llyfrgell. Fodd bynnag, nid yw’r arweinwyr yn manteisio digon ar gyfleoedd i dderbyn ymwelwyr i’r lleoliad i gyfoethogi profiadau’r plant.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau buddiol â cholegau addysg bellach lleol i gynnig lleoliadau ar gyfer myfyrwyr gofal plant. Mae hyn yn cyfoethogi’r ddarpariaeth yn briodol ar adegau.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cefnogol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae'r bartneriaeth hon wedi ei chynllunio i gefnogi ac i geisio herio’r ymarferwyr i weithredu’n effeithiol a datblygu’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid ydynt hyd yma wedi cael digon o effaith ar safonau na’r arweinyddiaeth.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau gofal plant addas. Fodd bynnag, nid ydynt eto wedi sicrhau bod ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant angenrheidiol nac addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen nac er mwyn eu galluogi i herio plant yn ddigon da. Ychydig iawn o hyfforddiant mae’r ymarferwyr wedi ei gael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae’r mwyafrif o’r adnoddau sydd ar gael o fewn cyrraedd y plant ac mae hyn yn eu galluogi i wneud rhai penderfyniadau prin ynglŷn â’u dysgu. Mae’r lleoliad yn defnyddio’r ardal tu allan yn effeithiol, ond nid ydynt yn ei defnyddio digon fel rhan barhaus o’r ddarpariaeth. Mae adnoddau dan do yn cyfyngu’r addysgu a'r dysgu, yn enwedig wrth ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant.

Mae cymhwysedd yr ymarferwyr yn yr iaith Gymraeg yn gyfyng iawn ac nid yw’r ddarpariaeth yn ddigonol i fodloni anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae gan y perchennog weithdrefnau priodol ar gyfer rheoli ac adolygu gwariant. Fodd bynnag, nid ydynt yn dyrannu cyllid yn ddigon effeithiol i fynd i’r afael â’r blaenoriaethau gwella.

O ystyried y gwendidau sylweddol yn y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth, mae’r lleoliad yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gwawr Hughes | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |